

Cyfnodau Allweddol 2–3

# leithoedd tramor modern

yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru



**Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**  
**Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills**

Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government

# leithoedd tramor modern yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru

- Cynulleidfa** Athrawon, penaethiaid a chyrrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru; awdurdodau lleol; consortia rhanbarthol; darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon; undebau athrawon a chyrrff cynrychioli ysgolion; awdurdodau esgobaethol eglwysi; cyrrff cenedlaethol yng Nghymru sydd â diddordeb mewn addysg.
- Trosolwg** Mae'r ddogfen hon yn egluro gofynion Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer ieithoedd tramor modern yng nghwricwlwm cenedlaethol Cymru. Fe'i cyhoeddir yn unol â'r pwerau yn Adran 108 o Ddeddf Addysg 2002 ac a freiniwyd yng Ngweinidogion Cymru. Mae Gweinidogion Cymru yn rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru.
- Camau i'w cymryd** Rhaid i athrawon, penaethiaid a chyrrff llywodraethu ysgolion a gynhelir sicrhau bod y gofynion cyfreithiol yn y ddogfen hon yn cael eu gweithredu yn ôl y dyddiadau a nodir yn y Rhagair.
- Gwybodaeth bellach** Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:  
Yr Is-adran Cwricwlwm  
Y Gyfarwyddiaeth Addysg  
Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ  
e-bost: [is-adrancwricwlwm@cymru.gsi.gov.uk](mailto:is-adrancwricwlwm@cymru.gsi.gov.uk)
- Copïau ychwanegol** Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Dysgu Cymru yn [llyw.cymru/dysgu](http://llyw.cymru/dysgu)

# Cynnwys

Rhagair	2
Cynnwys pob dysgwr	4
Sgiliau ar draws y cwricwlwm	6
Dysgu ar draws y cwricwlwm	8
Dilyniant mewn ieithoedd tramor modern	10
Cyfnod Allweddol 3: Rhaglen Astudio	12
Targedau cyrhaeddiad	16
Deilliannau'r cwricwlwm cenedlaethol	22
Addasiadau ar gyfer disgyblion sy'n astudio Tsieinëeg (Cantonëeg neu Fandarin) neu Japanaeg	24
Atodiad – Cyfnod Allweddol 2: fframwaith anstatudol ar gyfer ieithoedd tramor modern	26

# Rhagair

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno'r cwricwlwm cenedlaethol diwygiedig ar gyfer **ieithoedd tramor modern** yng Nghymru.

## Strwythur y cwricwlwm cenedlaethol

Mae'r cwricwlwm cenedlaethol yn berthnasol i ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion a gynhelir. Fe'i trefnir ar sail tri chyfnod allweddol, a dyma nhw yn fras\*:

	Oedran y disgyblion	Grwpiau blwyddyn
Cyfnod Allweddol 2	7–11	3–6
Cyfnod Allweddol 3	11–14	7–9
Cyfnod Allweddol 4	14–16	10–11

Yng Nghymru, mae'r pynciau canlynol yn cael eu cynnwys yn y cwricwlwm cenedlaethol yn y cyfnodau allweddol a ddangosir:

Cyfnod Allweddol 2	Cymraeg, Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth, dylunio a thechnoleg, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, hanes, daearyddiaeth, celf a dylunio, cerddoriaeth ac addysg gorfforol.
Cyfnod Allweddol 3	Fel yng Nghyfnod Allweddol 2, ynghyd ag iaith dramor fodern.
Cyfnod Allweddol 4	Cymraeg, Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth ac addysg gorfforol.

Ar gyfer pob pwnc, ym mhob un o'r cyfnodau allweddol a restrir uchod, mae rhaglenni astudio yn pennu'r hyn y dylid ei addysgu i'r disgyblion ac, ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3, mae targedau cyrhaeddiad yn nodi safonau'r perfformiad a ddisgwylir gan y disgyblion.

Ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3, mae safonau perfformiad y disgyblion yn cael eu disgrifio mewn wyth disgrifiad lefel sy'n mynd yn fwyfwy anodd. Mae disgrifiad ychwanegol y tu hwnt i Lefel 8 er mwyn helpu athrawon i wahaniaethu Perfformiad Eithriadol.

Yng Nghyfnod Allweddol 4, defnyddir cymwysterau allanol fel y prif ddull o asesu cyrhaeddiad yn y cwricwlwm cenedlaethol. Bob blwyddyn bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyhoeddi rhestr o gymwysterau sydd, dan Adran 96 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000, wedi'u cymeradwyo i'w defnyddio gyda disgyblion o oedran ysgol gorfodol.

\* Mae'r cyfnodau allweddol yn cael eu diffinio'n fanwl gywir yn Adran 103 Deddf Addysg 2002.

## Cynnwys pob dysgwr

Mae'r cwricwlwm cenedlaethol diwygiedig yn cynnwys adran sy'n sôn am gynnwys pob dysgwr ac mae'n egluro hawl pob dysgwr a chyfrifoldebau ysgolion.

## Dyddiadau gweithredu

Mae'r rhaglenni astudio a'r targedau cyrhaeddiad diwygiedig ar gyfer **ieithoedd tramor modern** yn dod yn ofynion cyfreithiol trwy gyfrwng Gorchymyn a wneir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Fe ddônt i rym ar:

- 1 Awst 2008 ar gyfer Blynnyddoedd 7 ac 8
- 1 Awst 2009 ar gyfer Blwyddyn 9.

O'r dyddiadau hyn bydd y cwricwlwm cenedlaethol presennol ar gyfer **ieithoedd tramor modern** yn cael ei ddisodli.

## Llywodraeth Cynulliad Cymru Ionawr 2008

# Cynnwys pob dysgwr

## Cyfrifoldebau ysgolion

Yn ôl Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a dogfen strategaeth drosfwaol Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Gweithredu'r Hawliau*, rhaid sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn derbyn addysg sy'n datblygu eu personoliaeth a'u talentau yn llawn. Mae Deddf Addysg 2002 yn cryfhau ymhellach ddyletswydd ysgolion i ddiogelu a hyrwyddo lles pob plentyn a pherson ifanc.

Mae'r ddeddfwriaeth cyfle cyfartal sy'n cwmpasu oedran, anabledd, rhyw, hil, crefydd a chred, a chyfeiriadedd rhywiol yn gosod dyletswydd bellach ar ysgolion yng Nghymru tuag at y dysgwyr presennol a darpar ddysgwyr, sef cael gwared ar wahaniaethu ac aflonyddwch, hyrwyddo agweddau cadarnhaol a chyfle cyfartal, ac annog cyfranogiad ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol.

Dylai ysgolion feithrin ym mhob dysgwr ymdeimlad o hunaniaeth bersonol a diwylliannol sy'n dderbyngar ac yn parchu eraill. Dylai ysgolion gynllunio ar draws y cwricwlwm i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth, sgiliau, gwerthoedd ac agweddau a fydd yn galluogi dysgwyr i gymryd rhan yn ein cymdeithas amlethnig yng Nghymru. Dylai ysgolion ddatblygu ymagweddau sy'n cefnogi hunaniaeth ethnig a diwylliannol pob dysgwr ac sy'n adlewyrchu ystod o safbwyntiau, er mwyn cael ymrwymiad dysgwyr a'u paratoi am fywyd fel dinasyddion byd-eang.

Rhaid i ysgolion weithio i leihau rhwystrau amgylcheddol a chymdeithasol i gynhwysiant a darparu cyfleoedd i'r holl ddysgwyr fel eu bod yn cyflawni eu potensial yn llawn wrth baratoi ar gyfer addysg bellach a bywyd. Lle bo'n briodol, bydd angen i ysgolion gynllunio a gweithio gyda gwasanaethau arbenigol i sicrhau y caiff dysgwyr brofiadau perthnasol a hygyrch.

Ar gyfer dysgwyr ag anableddau yn enwedig, dylent:

- wella mynediad i'r cwricwlwm
- gwneud gwelliannau ffisegol i gynyddu cyfranogiad mewn addysg
- darparu gwybodaeth mewn fformatau priodol.

Dylai ysgolion geisio cyngor ynglŷn ag addasiadau rhesymol, gweithgareddau amgen/addasedig ac offer ac adnoddau priodol y gellir eu defnyddio i gefnogi cyfranogiad llawn gan yr holl ddysgwyr, gan gynnwys rhai sy'n defnyddio dull arall o gyfathrebu heblaw am iaith lafar.

Ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg fel iaith gyntaf, dylai ysgolion gymryd camau penodol i'w helpu i ddysgu Cymraeg a Saesneg drwy'r cwricwlwm. Dylai ysgolion ddarparu deunydd i ddysgwyr sy'n cyfateb â'u gallu, eu haddysg a'u profiad blaenorol, ac sy'n ymestyn eu datblygiad ieithyddol. Dylai ysgolion hefyd annog y defnydd o ieithoedd cartref y dysgwyr wrth ddysgu.

## Hawliau dysgwyr

Dylai ysgolion yng Nghymru sicrhau bod pob dysgwr yn ymrwymo'n aelodau llawn o gymuned eu hysgol, ac yn cael mynediad i'r cwricwlwm ehangach a holl weithgareddau'r ysgol gan weithio ochr yn ochr â'u cyfoedion lle bo hynny'n bosibl. Dylai'r ysgol addysgu'r holl raglenni astudio a fframweithiau mewn modd sy'n cyfateb i aeddfedrwydd a gallu dysgwyr sy'n dal i ddatblygu. Dylai hefyd sicrhau bod dysgwyr yn gallu gwneud defnydd llawn o'u dull dewisedig o gyfathrebu er mwyn cael mynediad i'r cwricwlwm. I ehangu eu dysgu, dylai dysgwyr brofi amrywiaeth o arddulliau dysgu ac addysgu.

Er mwyn galluogi pob dysgwr i fanteisio ar sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth berthnasol ar bob lefel, gall ysgolion ddefnyddio cynnwys o gyfnodau neu gyfnodau allweddol blaenorol o fewn y cwricwlwm. Dylai ysgolion ddefnyddio deunyddiau mewn modd sy'n addas i oedran, profiad, dealltwriaeth a chyrhaeddiad blaenorol y dysgwyr, er mwyn ennyn eu diddordeb yn y broses ddysgu.

Ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio ar lefel sy'n llawer is na'r hyn a ddisgwylir mewn unrhyw gyfnod allweddol, dylai ysgolion ddefnyddio anghenion y dysgwr fel man cychwyn ac addasu rhaglenni astudio i gyfateb â'r anghenion hynny. Mae'r cwricwlwm yn ddigon hyblyg i ddiwallu anghenion dysgwyr heb orfod datgymhwyso. Mewn achosion eithriadol, gellir datgymhwyso dysgwyr unigol, am gyfnod dros dro fel arfer. Serch hynny, ni ddylid datgymhwyso grwpiau na datgymhwyso ar raddfa fawr.

Os nad oes modd ymdrin â chynnwys yr holl raglenni astudio ar gyfer pob cyfnod allweddol, gellir bodloni'r gofyniad statudol i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys drwy ddewis pynciau/themâu priodol o'r cwricwlwm yn gyd-destunau ar gyfer dysgu.

Ar gyfer dysgwyr mwy galluog a thalentog sy'n gweithio ar lefelau uwch, dylai ysgolion gynnig mwy o her iddynt drwy ddefnyddio deunyddiau mewn modd sy'n ymestyn ehangder a dyfnder yr astudio a chyfleoedd i ddysgu'n annibynnol. Gellir cynyddu'r her hefyd drwy ddatblygu a chymhwyso meddwl, a sgiliau cyfathrebu, TGCh a rhif ar draws y cwricwlwm.

Dylai ysgolion ddewis deunydd a fydd yn:

- darparu cwricwlwm ystyrlon a pherthnasol sy'n cymhell eu dysgwyr
- diwallu anghenion penodol eu dysgwyr a hyrwyddo'u datblygiad yn gyffredinol.

Dylai dysgwyr o bob gallu gael mynediad i asesu ac achredu priodol.

## Sgiliau ar draws y cwricwlwm

Mae *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* anstatudol wedi cael ei ddatblygu er mwyn cynnig arweiniad ynghylch parhad a dilyniant mewn datblygu meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhif i ddysgwyr 3–19 oed.

Yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr adeiladu ar y sgiliau y maent wedi dechrau eu caffael a'u datblygu yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Dylai'r dysgwyr barhau i gaffael, datblygu, ymarfer, cymhwyso a mireinio'r sgiliau hyn trwy dasgau grŵp a thasgau unigol mewn amrywiaeth o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Gellir gweld cynnydd yn nhermau mireinio'r sgiliau hyn a thrwy eu cymhwyso i dasgau sy'n symud o'r diriaethol i'r haniaethol; syml i'r cymhleth; personol i'r 'darlun mawr'; cyfarwydd i'r anghyfarwydd; â chymorth i'r annibynnol a'r cyd-ddibynnol.

Ar gyfer dysgwyr 14–19 oed, dylai'r fframwaith ddarparu'r sail ar gyfer gwneud cynnydd effeithiol yn y sgiliau hyn, y gellir eu hasesu drwy ystod o gymwysterau, gan gynnwys Sgiliau Allweddol.

### Datblygu meddwl



Bydd y dysgwyr yn datblygu eu meddwl ar draws y cwricwlwm trwy'r prosesau **cynllunio, datblygu a myfyrio**.

Mewn **ieithoedd tramor modern**, bydd y dysgwyr yn datblygu sgiliau meddwl trwy ystod o weithgareddau yn eu hiaith eu hunain neu trwy'r iaith darged. Byddant yn cynllunio a dadansoddi'r hyn sydd arnynt angen ei wybod er mwyn gweithredu'r gweithgareddau; adeiladu ar iaith ac addasu iaith a ddysgwyd yn flaenorol; meddwl a defnyddio iaith yn greadigol; defnyddio gwallau a chanlyniadau annisgwyl i ddatblygu eu dysgu ieithyddol; defnyddio gwybodaeth ieithyddol flaenorol i esbonio a rhagfynegi; disgrifio cysylltiadau a'r hyn sy'n debyg rhwng yr ieithoedd; adnabod patrymau a llunio rheolau; trafod y gwaith o ddysgu iaith a gwerthuso eu llwyddiant.

### Datblygu cyfathrebu



Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau cyfathrebu ar draws y cwricwlwm trwy'r sgiliau **llafaredd, darllen, ysgrifennu a chyfathrebu ehangach**.

Mewn **ieithoedd tramor modern**, bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau mewn llafaredd, darllen, ysgrifennu a sgiliau cyfathrebu ehangach yn yr iaith darged. Byddant yn gwrando'n astud, dysgu patrymau sain newydd, siarad yn hyderus, darllen ystod o destunau a chynhyrchu amrywiaeth o fathau o ysgrifennu. Byddant yn ymdopi ag iaith fwy estynedig a chymhleth er mwyn datblygu fel defnyddwyr iaith annibynnol. Bydd eu sgiliau cyfathrebu mewn iaith newydd yn gymorth i ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu yn Gymraeg a Saesneg gan adeiladu ar y sgiliau hynny.



## Datblygu TGCh



Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau TGCh ar draws y cwricwlwm trwy **ddarganfod, datblygu, creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau** a thrwy ddefnyddio ystod eang o offer a meddalwedd.

Mewn **ieithoedd tramor modern**, bydd y dysgwyr yn defnyddio eu sgiliau TGCh i: gyfathrebu a rhannu gwybodaeth, gan gynnwys e-bost; chyflwyno gwybodaeth mewn amrywiaeth o fformatau gan ddefnyddio prosesydd geiriau a graffeg; darganfod a datblygu gwybodaeth ar y rhyngwyd; ategu cyflwyniadau llafar ac fel offeryn ar gyfer dysgu ac ymarfer iaith.

## Datblygu rhif



Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau rhif ar draws y cwricwlwm trwy **ddefnyddio gwybodaeth fathemategol, cyfrifo, a dehongli a chyflwyno casgliadau**.

Mewn **ieithoedd tramor modern**, bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau rhif trwy amrywiaeth o weithgareddau yn yr iaith darged. Gall y rhain gynnwys rhigymau rhif; trefnu rhifau; trefnu digwyddiadau o fewn cyfnod o amser; defnyddio rhifau mewn cyd-destunau perthnasol megis cyfnewid arian; casglu gwybodaeth mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys holiaduron a thrwy gofnodi a chyflwyno canlyniadau mewn amrywiaeth o fformatau.

## Dysgu ar draws y cwricwlwm

Yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr adeiladu ar y profiadau a gaffaelwyd yn ystod y Cyfnod Sylfaen, a hybu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o Gymru, eu datblygiad personol a chymdeithasol a'u lles, a'u hymwybyddiaeth o'r byd gwaith.

Yng Nghyfnod Allweddol 4, dylai gwybodaeth a dealltwriaeth y dysgwyr gael eu datblygu a'u cymhwyso o fewn cyd-destunau eu llwybrau 14–19 unigol gan gynnwys y Craidd Dysgu.

### Y Cwricwlwm Cymreig (7–14) a Chymru, Ewrop a'r Byd (14–19)



Dylai dysgwyr 7–14 oed gael cyfleoedd i ddatblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru. Dylai dysgwyr 14–19 oed gael cyfleoedd i fod yn weithredol wrth ddeall agweddau gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol ar Gymru fel rhan o'r byd cyfan. Ar gyfer dysgwyr 14–19 oed, mae'n rhan o hawl y Craidd Dysgu ac yn ofyniad yng Nghyfnod Allweddol 4.

Bydd **ieithoedd tramor modern** yn cyfrannu at y Cwricwlwm Cymreig trwy ganiatáu i ddysgwyr werthfawrogi a chymharu eu diwylliant eu hunain, eu hiaith a'u cymuned gydâ'r gwledydd a'r cymunedau yn yr iaith darged. Bydd astudio iaith newydd yn helpu datblygu sgiliau ieithyddol a all ychwanegu at ddysgu Cymraeg.

### Addysg bersonol a chymdeithasol



Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i hyrwyddo eu hiechyd a'u lles emosiynol a'u datblygiad moesol ac ysbrydol; fod yn ddinasyddion gweithgar a hybu datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang; a pharatoi ar gyfer dysgu gydol oes. Ar gyfer dysgwyr 14–19 oed, mae'n rhan o hawl y Craidd Dysgu ac yn ofyniad yng Nghyfnod Allweddol 4.

Bydd **ieithoedd tramor modern** yn cyfrannu at addysg bersonol a chymdeithasol dysgwyr trwy eu hymwybyddiaeth o ddiwylliannau eraill a'u ffordd o fyw. Bydd y dysgwyr yn gweithio'n gydweithredol ac yn parhau cyfraniadau gan eraill.

## Gyrfaoedd a'r byd gwaith



Dylai dysgwyr 11–19 oed gael cyfleoedd i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'r maes gyrfaoedd a'r byd gwaith a sut mae eu hastudiaethau'n cyfrannu at baratoi ar gyfer bywyd gwaith. Ar gyfer dysgwyr 14–19 oed, mae'n rhan o hawl y Craidd Dysgu ac yn ofyniad yng Nghyfnod Allweddol 4.

Mewn **ieithoedd tramor modern**, dylai'r dysgwyr gael cyfleoedd i ddatblygu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ieithoedd ym myd gwaith, yr economi fyd-eang a'u gyrfaoedd yn y dyfodol. Gall y dysgwyr ddefnyddio ieithoedd mewn cyd-destunau cysylltiedig â gwaith a gall ysgolion wneud disgyblion yn ymwybodol o rôl ieithoedd mewn ystod o swyddi drwy ymweliadau, cysylltiadau busnes lleol ac adnoddau cysylltiedig â gwaith eraill.

## Dilyniant mewn ieithoedd tramor modern

Yng Nghyfnod Allweddol 3, bydd y dysgwyr yn datblygu sgiliau cyfathrebu mewn iaith dramor fodern a fydd yn adeiladu ar eu sgiliau llythrennedd a llafaredd yn Gymraeg a Saesneg ac yn ategu'r sgiliau hynny. Gallant hefyd adeiladu ar y sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth a ddatblygwyd yng Nghyfnod Allweddol 2, lle mae ieithoedd tramor modern yn rhan o'r cwricwlwm (gweler Atodiad, tudalen 26, ar gyfer fframwaith anstatudol Cyfnod Allweddol 2).

Bydd y dysgwyr yn datblygu sgiliau llafaredd, darllen ac ysgrifennu yn yr iaith dramor gan gyfathrebu gyda hyder ac annibyniaeth cynyddol. Byddant yn datblygu dealltwriaeth ryngddiwyllynnol, ymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang, a dysgu gwerthfawrogi gwahanol ddiwylliannau a chymunedau a'u cymharu â'u rhai nhw.

Trwy gydol y cyfnod allweddol bydd y dysgwyr yn dod yn gyfarwydd â seiniau, ffurf ysgrifenedig a strwythurau'r iaith gydag amrywiaeth gynyddol o eirfa. Byddant yn archwilio'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol rhwng ieithoedd eraill a Chymraeg a Saesneg. Byddant yn defnyddio'r iaith mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd ac ar gyfer dibenion gwahanol. Byddant yn gwylio ac yn gwrandao ar ddeunydd o wahanol ffynonellau, darllen amrywiaeth o destunau a dysgu sut i ymdopi ag iaith lai cyfarwydd a mwy cymhleth. Byddant yn siarad ac ysgrifennu mwy, gyda mwy o fanylder a gan ddefnyddio amrywiaeth ehangach o strwythurau. Byddant yn ehangu eu hiaith trwy addasu a thrin iaith a ddysgwyd eisoes a thrwy ddeall a defnyddio ystod ehangach o iaith.

Bydd eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth cynyddol o sut mae iaith yn gweithio a datblygiad y strategaethau dysgu iaith yn gosod sail ar gyfer astudio pellach a dysgu ieithoedd eraill. Byddant yn gwerthfawrogi bod y gallu i ddeall a chyfathrebu mewn iaith arall yn sgil gydol oes ar gyfer dysgu, hamdden a gwaith yn y wlad hon a ledled y byd.

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau iaith mewn amrywiaeth o gyd-destunau diddorol a pherthnasol, a thrwy amrywiaeth o weithgareddau dymunol a fydd yn ategu eu hunanhyder, dysgu annibynnol a chreadigrwydd, ac yn hybu agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu iaith.

Dylid disgwyl ac annog y disgyblion i ddefnyddio ac ymateb i'r iaith darged ac i ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg dim ond pan fo rheswm amlwg dros wneud hynny.

## **leithoedd y gellir eu dysgu yng Nghyfnod Allweddol 3**

Gall ysgolion gynnig ieithoedd Ewropeaidd neu ieithoedd y byd megis Arabeg, Ffrangeg, Almaeneg, Japanaeg, Mandarin, Rwseg, Sbaeneg, Wrddw. Gall ysgolion ddewis pa ieithoedd i'w haddysgu drwy ystyried y galw amdanynt, diddordeb, llwybrau cynnydd ac adnoddau.





Trwy gydol Cyfnod Allweddol 3 dylid rhoi cyfle i'r disgyblion ddefnyddio a deall o leiaf un iaith dramor fodern trwy ddatblygu sgiliau llafaredd, darllen ac ysgrifennu.

## Sgiliau



### Llafaredd

#### Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

1. wrando yn astud am hanfod a manylder ac ymateb yn briodol
2. defnyddio'r cyd-destun, cliwiau gramadegol a chytrasau i ddeall iaith lafar
3. trosglwyddo hanfod a manylion perthnasol iaith lafar
4. datblygu ynganiad a goslef cywir
5. cychwyn a datblygu sgysiau trwy ofyn cwestiynau, ymateb i gyfraniadau gan eraill, rhoi gwybodaeth, cyfarwyddiadau ac esboniadau
6. cyfathrebu â'i gilydd a'u hathro/athrawes, cymryd rhan mewn deialogau byrfyfyr a chyfrannu at drafodaeth ddosbarth
7. rhoi cyflwyniadau llafar, gan gynnwys defnyddio cymorth gweledol megis TGCh 
8. gwranddo ar iaith annisgwyl a llai cyfarwydd ac ymdopi â'r iaith honno
9. gwranddo ar a thrafod gweithredoedd a digwyddiadau yn y gorffennol, presennol a'r dyfodol
10. defnyddio'r hyn a glywant i ddatblygu eu hiaith gynhyrchiol eu hunain
11. addasu ac amrywio iaith a ddysgwyd eisoes i'w hail ddefnyddio ar lafar ar gyfer cyd-destun, cynulleidfa a phwrpas
12. mynegi a chyfiawnhau barnau a theimladau personol 
13. defnyddio iaith yn greadigol a gyda dychymyg.





### Darllen

#### Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

1. ddeall a defnyddio'r wyddor, llinynnau o eiriau a sillafau cyffredin, patrymau sain, atalnodi, acenion a nodau eraill
2. darllen ar gyfer hanfod a manylder ac ymateb yn briodol
3. darllen yn uchel
4. defnyddio rhestri termau, geiriaduron dwyieithog ac adnoddau cyfeirio eraill, gan gynnwys TGCh 
5. trosglwyddo hanfod a manylion perthnasol iaith ysgrifenedig
6. darllen yn annibynnol er mwyn pleser a gwybodaeth
7. cip ddarllen a llithr ddarllen testunau
8. defnyddio cyd-destun, cliwiau gramadegol a chytrasau i ddeall testun ac ymdopi ag iaith anghyfarwydd
9. darllen ac ymateb i destunau sy'n cyfeirio at weithredoedd a digwyddiadau yn y gorffennol, presennol a'r dyfodol
10. defnyddio'r hyn a ddarllenant i ddatblygu neu i ychwanegu at eu hiaith gynhyrchiol eu hunain
11. datblygu sgiliau ymchwilio annibynnol gan ddefnyddio TGCh. 

## Ysgrifennu

### Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

1. ddeall a defnyddio gramadeg yr iaith darged
2. ysgrifennu ar gyfer gwahanol ddibenion gan ddefnyddio TGCh pan yn briodol 
3. caffael stôr o eiriau a ddefnyddir yn aml i gynorthwyo gydag adeiladu brawddegau a chysylltu
4. ehangu brawddegau trwy ychwanegu, e.e. *ansoddeiriau, adferfau, barnau*, a newid, e.e. *berf, amser, testun*
5. adeiladu brawddegau i ffurfio testun parhaus
6. cynhyrchu ysgrifennu mwy estynedig
7. ysgrifennu am weithredoedd a digwyddiadau yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol
8. trefnu a chyflwyno syniadau a gwybodaeth yn eglur mewn amrywiaeth o ffurfiau gan ddefnyddio TGCh pan yn briodol 
9. addasu ac amrywio iaith a ddysgwyd eisoes i gyd-fynd â chyd-destun, cynulleidfa a phwrpas
10. crynhoi ac adrodd o ffynonellau llafar ac ysgrifenedig
11. mynegi a chyfiawnhau barnau a theimladau personol 
12. defnyddio iaith yn greadigol ac yn ddychmygus, gan ddefnyddio TGCh pan yn briodol 
13. gwerthuso a gwella ansawdd eu hysgrifennu trwy ddrafftio ac aiddrafftio.







Dylid rhoi cyfle i'r disgyblion ddatblygu sgiliau llafaredd, darllen ac ysgrifennu trwy'r ystod o weithgareddau a digwyddiadau a restrir isod.

## Ystod



### Dealltwriaeth ryngddiwylliannol

I ehangu eu dealltwriaeth a'u gwerthfawrogiad o'u diwylliant eu hunain a diwylliannau eraill, dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

1. ddathlu, cymharu a gwerthfawrogi gwahaniaethau a thebygrwydd rhwng eu diwylliant a'u cymuned hwy a rhai yr iaith darged
2. datblygu sensitifrwydd tuag at wahanol bobloedd, eu harferion, gwerthoedd a safbwyntiau 
3. rhyngweithio gyda siaradwyr brodorol a dysgwyr yr iaith darged sydd â phrofiad diweddar a gweithredol o'r iaith, e.e. *ymweliadau, cyfnewidiadau, ysgolion partneriaeth, cynorthwywyr ieithoedd tramor, myfyrwyr iaith, tecstio, e-bost, cynadleddau fideo* 
4. defnyddio deunyddiau dilys, e.e. *ffilm, DVD, teledu, drama, radio, cylchgronau, hysbysebion, y rhynggrwyd, llyfrau, realia, caneuon, papurau newydd, llenyddiaeth*
5. gwerthfawrogi pwysigrwydd ieithoedd yng nghymdeithas fyd-eang yr unfed ganrif ar hugain ac ar gyfer byd gwaith 
6. datblygu eu hymwybyddiaeth o ddigwyddiadau cyfoes, newyddion, pobl a materion mewn perthynas â gwledydd a chymunedau yr iaith darged. 

### Strategaethau dysgu iaith




I'w helpu i ddysgu iaith newydd ac i ddod yn ddysgwyr iaith annibynnol, dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

1. fentro ac arbrofi gydag iaith
2. caffael technegau ar gyfer dysgu ar gof a chofnodi geiriau, ymadroddion a strwythurau
3. ymarfer iaith newydd o fewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth
4. adnabod patrymau mewn iaith, ffurfio rheolau a phrofi eu canfyddiadau
5. cynyddu eu hyder wrth ddefnyddio iaith a sgiliau llythrenedd triphlyg trwy adeiladu ar sgiliau a gafwyd eisoes wrth iddynt ddysgu Cymraeg a Saesneg 
6. cymharu Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd eraill, gan archwilio tebygrwydd a gwahaniaethau mewn geirfa a strwythur 
7. defnyddio a gweithredu technegau cadarnhaol ar gyfer hunanwerthuso a gwerthuso gan gyfoedion er mwyn hybu cynnydd a hyder wrth ddefnyddio'r iaith
8. trafod eu gwaith o ddysgu iaith
9. dadansoddi'r hyn sydd arnynt angen ei wybod er mwyn cyflawni tasg.



## Gweithgareddau a chyd-destunau

### Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu sgiliau iaith trwy:

1. ddefnyddio iaith mewn amrywiaeth o gyd-destunau perthnasol, diddorol a chyfoes a all fod yn gysylltiedig â meysydd eraill y cwricwlwm
2. gemau iaith a datrys posau, gan ddefnyddio TGCh pan yn briodol 
3. gweithio mewn parau a grwpiau i gymryd rhan mewn deialogau wyneb yn wyneb, sgysiau a thrafodaethau mewn grwpiau a pharau
4. ymateb i ac ymuno â chaneuon, rhigymau, gweithgareddau adrodd storïau, drama, cyfweliadau ac iaith lafar arall
5. ymateb i ystod o destunau, gan gynnwys storïau, cerddi, llenyddiaeth, testunau ffeithiol a defnyddio'r rhyngrwyd 
6. cynhyrchu testunau ffeithiol, disgrifiadol ac adroddiadol yn ogystal â gwybodaeth bersonol/llythyrau, dyddiaduron a darnau creadigol
7. darllen, gwyllo a gwrandao ar ffynonellau integredig gan gynnwys fideo/DVD, adnoddau clyweledol, y rhyngrwyd, CD-ROM ar gyfer diddordeb personol a phleser yn ogystal â gwybodaeth 
8. defnyddio iaith yn greadigol, yn annibynnol, ac ar gyfer dibenion go-iawn
9. gweithgareddau lle maent yn defnyddio cyfuniad o ddau sgil neu fwy.

# Targedau cyrhaeddiad

## Disgrifiadau lefel

Mae'r disgrifiadau lefel canlynol yn disgrifio'r mathau a'r ystod o berfformiad a ddylai fod yn nodweddiadol o'r disgyblion sy'n gweithio ar lefel benodol mewn Llafaredd, Darllen ac Ysgrifennu mewn iaith dramor fodern. Wrth benderfynu ar lefel cyrhaeddiad disgybl ar ddiwedd cyfnod allweddol, dylai athrawon farnu pa ddisgrifiad sy'n cyd-fynd orau â pherfformiad y disgybl. Dylid ystyried pob disgrifiad ar y cyd â'r disgrifiadau lefel cyfagos. Erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 3, dylai perfformiad y mwyafrif mawr o'r disgyblion ddod o fewn ystod Lefelau 3–7.

Dim ond yng Nghyfnod Allweddol 3 y mae ieithoedd tramor modern yn statudol, ac o ganlyniad mae'r lefelau is wedi eu cynllunio i alluogi'r disgyblion wneud cynnydd yn gyflymach drwyddynt, felly erbyn diwedd y cyfnod allweddol, bydd eu lefel cyrhaeddiad disgwylidig yr un fath ag ar gyfer y pynciau eraill. Mae Lefel 8 ar gael i ddisgyblion galluog iawn ac, i helpu athrawon i wahaniaethu Perfformiad Eithriadol yng Nghyfnod Allweddol 3, darperir disgrifiad uwchlaw Lefel 8. Mae'r disgrifiadau lefel yn gynyddol, h.y. mae pob un yn cynnwys y disgrifiad lefel blaenorol.

Mae'r disgrifiadau lefel wedi eu cynllunio ar gyfer cynnwys ystod eang o ieithoedd, pob un â'i nodweddion neilltuol, ac ni chyfeiriant at unrhyw gyd-destun penodol neu agwedd ar ramadeg. Ar gyfer ieithoedd gyda llawysgrifen nad yw'n rhufeinig, mae'r disgrifiadau lefel yn rhagdybio sgiliau cyn-ddarllen (adnabod llythrennau/sillafau, ffurfiau printiedig/wedi eu hysgrifennu â llaw) a sgiliau cyn-ysgrifennu (ffurfio llythrennau, cyfuno llythrennau, llunio trawiadau ysgrifbin yn y drefn gywir). Mae cyfaddasiadau penodol ar gyfer Tsieinëeg a Japanaeg.

## Targed cyrhaeddiad 1: Llafaredd

### Lefel 1

Bydd y disgyblion yn dangos dealltwriaeth o rai geiriau cyfarwydd a rhai gosodiadau a chwestiynau syml. Gall fod angen cymorth arnynt ar adegau megis ailadrodd, ystumiau a chiwiau gweledol. Byddant yn ymateb gyda geiriau unigol ac ymadroddion byr syml i'r hyn a welant ac a glywant, a gallant ddynwared ynganiad cywir gyda chryn lwyddiant.

### Lefel 2

Bydd y disgyblion yn dangos dealltwriaeth o osodiadau a chwestiynau cyfarwydd, ond gall fod angen i'r eitemau gael eu hailadrodd. Byddant yn rhoi ymatebion byr syml i'r hyn a welant ac a glywant a bydd yr ystyr yn glir fel arfer. Bydd eu hynganiad yn dangos ymwybyddiaeth o batrymau sain.

### Lefel 3

Bydd y disgyblion yn dangos dealltwriaeth o ddarnau byr, deialogau a mathau eraill syml o iaith gyfarwydd. Byddant yn gofyn ac ateb cwestiynau gan ymateb yn briodol trwy ddefnyddio geiriau ac ymadroddion cyfarwydd. Byddant yn cyfnewid geiriau ar adegau i amrywio eu hiaith. Bydd eu hynganiad yn gywir ar y cyfan.

## Lefel 4

Bydd y disgyblion yn dangos dealltwriaeth o iaith gyfarwydd wedi'i ffurfio o frawddegau syml ac yn cynnwys gwahanol batrymau brawddegau. Byddant weithiau yn petruso, bydd angen cliwiau arnynt neu bydd angen ailadrodd yr eitemau iddynt. Byddant yn cymryd rhan mewn sgysiau neu gyflwyniadau syml. Byddant yn dechrau defnyddio eu gwybodaeth o iaith i gyfnewid geiriau neu ymadroddion. Byddant yn dangos peth cysondeb yn eu goslef.

## Lefel 5

Bydd y disgyblion yn dangos dealltwriaeth o wahanol fathau o ddeunydd llafar mewn cyd-destunau cyfarwydd amrywiol, yn cynnwys amrywiaeth o strwythurau. Mewn sgysiau a chyflwyniadau byddant yn gallu amrywio'r gwahanol strwythurau a ddefnyddiant, ac weithiau gynhyrchu ymatebion mwy estynedig. Er y gall fod rhai camgymeriadau, bydd eu cyfathrebu yn eglur fel arfer.

## Lefel 6

Bydd y disgyblion yn dangos dealltwriaeth o amrywiaeth o ddeunydd llafar sy'n cynnwys amrywiaeth o strwythurau, gan gynnwys iaith gyfarwydd mewn cyd-destunau llai cyfarwydd, yn ogystal â rhai eitemau hirach. Byddant yn addasu iaith a ddysgwyd eisoes a byddant yn defnyddio amrywiaeth ehangach o strwythurau. Byddant yn cynhyrchu ymatebion mwy estynedig a manwl. Bydd y disgyblion yn cyfleu eu hunain heb lawer neu unrhyw anhawster a gyda hyder cynyddol.

## Lefel 7

Bydd y disgyblion yn dangos dealltwriaeth o ystod o ddeunydd llafar gan gynnwys darnau hirach, sy'n cynnwys rhai brawddegau cymhleth ac iaith anghyfarwydd. Weithiau byddant yn dangos parodrwydd i ddefnyddio'r iaith mewn modd digymell a byrffyr, gydag ynganiad a goslef da yn gyffredinol. Byddant yn defnyddio amrywiaeth o iaith a ddysgwyd eisoes a chysylltu ymadroddion i roi ymatebion mwy estynedig a manwl. Bydd eu hiaith lafar yn gywir ar y cyfan, ond gall fod camgymeriadau wrth fentro gydag iaith fwy uchelgeisiol.

## Lefel 8

Bydd y disgyblion yn dangos dealltwriaeth o amrywiaeth o iaith lafar a gymerwyd o ystod o ffynonellau. Byddant yn trafod ffeithiau, syniadau a phrofiadau gan ddefnyddio ystod o eiriau a strwythurau, gan gynnwys iaith gymhleth. Byddant yn addasu iaith i ymdopi â sefyllfaoedd annisgwyladwy. Byddant yn siarad yn hyderus a bydd eu hiaith yn gywir i raddau helaeth.

## Perfformiad Eithriadol

Bydd y disgyblion yn dangos dealltwriaeth o ystod eang o iaith ffeithiol a dychmygus. Byddant yn gallu crynhoi, adrodd ac esbonio'r hyn a glywant. Byddant yn trafod ystod eang o dopigau ffeithiol a dychmygus. Byddant yn siarad yn rhugl a hyderus hyd yn oed mewn sefyllfaoedd anghyfarwydd.

## Targedau cyrhaeddiad 2: Darllen

### Lefel 1

Bydd y disgyblion yn dangos dealltwriaeth o eiriau unigol mewn cyd-destun cyfarwydd, yn eu hadnabod ac yn eu darllen yn uchel. Gall fod angen cymorth gweledol arnynt ar adegau.

### Lefel 2

Bydd y disgyblion yn dangos dealltwriaeth o ymadroddion cyfarwydd. Byddant yn dangos dealltwriaeth o batrymau sain, llinynnau llythrennau cyffredin neu symbolau a sillafau trwy ddarllen yn uchel eiriau ac ymadroddion cyfarwydd. Byddant yn dechrau defnyddio llyfrau a rhestri termau i ddarganfod ystyr geiriau newydd.

### Lefel 3

Bydd y disgyblion yn dangos dealltwriaeth o destunau syml, deialogau a ffynonellau eraill o iaith gyfarwydd. Byddant yn datblygu eu defnydd o eiriaduron a rhestri termau dwyieithog i chwilio am ystyr geiriau newydd.

### Lefel 4

Bydd y disgyblion yn dangos dealltwriaeth o destunau yn cynnwys iaith gyfarwydd a gwahanol batrymau brawddegau. Yn ychwanegol at ddefnyddio rhestri termau neu eiriaduron dwyieithog, byddant yn dechrau defnyddio cyd-destun i ganfod ystyr geiriau anghyfarwydd. Byddant yn defnyddio'r hyn a ddarllenant ar adegau i ddatblygu eu hiaith gynhyrchiol eu hunain.

### Lefel 5

Bydd y disgyblion yn dangos dealltwriaeth o wahanol fathau o destunau mewn cyd-destunau cyfarwydd amrywiol, yn cynnwys amrywiaeth o strwythurau. Byddant yn dechrau defnyddio technegau cip ddarllen, llithr ddarllen a darllen manwl i leoli gwybodaeth. Byddant yn fwy hyderus yn gyffredinol wrth ddarllen yn uchel, ac yn eu defnydd o ddeunyddiau cyfeirio eraill. Byddant yn parhau i ddatblygu eu defnydd o'r hyn a ddarllenant i ymestyn eu hiaith gynhyrchiol eu hunain a defnyddio cyd-destun a chiwiau eraill i ganfod ystyr iaith anghyfarwydd.

## Lefel 6

Bydd y disgyblion yn dangos dealltwriaeth o amrywiaeth o destunau sy'n cynnwys ystod o strwythurau gan gynnwys iaith gyfarwydd mewn cyd-destunau llai cyfarwydd, yn ogystal â rhai testunau hirach. Byddant yn defnyddio gwahanol strategaethau i leoli a dethol gwybodaeth. Byddant yn dod yn fwy hyderus wrth ganfod ystyr iaith anghyfarwydd, gan ddefnyddio cyd-destun, cliwiau gramadegol a chytrasau. Byddant yn parhau i ddatblygu eu defnydd o ddeunyddiau cyfeirio. Byddant yn defnyddio'r hyn a ddarllenant i ddatblygu eu hiaith gynhyrchiol eu hunain.

## Lefel 7

Bydd y disgyblion yn dangos dealltwriaeth o ystod o ddeunyddiau, gan gynnwys testunau hirach. Byddant yn parhau i ddatblygu strategaethau i adnabod yn gywir y syniadau a'r wybodaeth a geisiant. Bydd testunau yn cynnwys brawddegau cymhleth ac iaith anghyfarwydd. Byddant yn defnyddio deunyddiau cyfeirio, a defnyddio'r hyn a ddarllenant fel man cychwyn ar gyfer cynhyrchu'n greadigol.

## Lefel 8

Bydd y disgyblion yn dangos dealltwriaeth gadarn o amrywiaeth o ddeunyddiau ysgrifenedig. Byddant yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau cyfeirio. Byddant yn ymdopi yn rhwydd â thopigau anghyfarwydd yn cynnwys iaith fwy cymhleth, gan ddefnyddio elfennau ohonynt yn gynhyrchiol.

## Perfformiad Eithriadol

Bydd y disgyblion yn dangos dealltwriaeth o ystod eang o destunau ffeithiol a dychmygus mewn gwahanol gyweiriau ac yn cynnwys ystod eang o iaith. Byddant yn gallu crynhoi, adrodd ac esbonio gan ddefnyddio'r hyn y maent yn ei ddarllen yn gyffredinol yn eu gwaith llafar a'u hysgrifennu eu hunain.

# Targedau cyrhaeddiad

## Targed cyrhaeddiad 3: Ysgrifennu

### Lefel 1

Bydd y disgyblion yn copïo geiriau unigol neu symbolau yn gywir. Byddant yn labelu eitemau a dethol geiriau penodol i gwblhau ymadroddion neu frawddegau byrion.

### Lefel 2

Bydd y disgyblion yn copïo ymadroddion syml yn gywir. Byddant yn ysgrifennu geiriau ac ymadroddion cyfarwydd. Bydd eu sillafu ar adegau yn cynnwys gwallau, ond bydd yn dangos ymwybyddiaeth o'r cysylltiadau rhwng sain a sillafu.

### Lefel 3

Bydd y disgyblion yn ysgrifennu brawddegau syml gyda chefnogaeth. Byddant yn dechrau cyfnewid geiriau i amrywio eu hiaith. Wrth ysgrifennu ar gof, bydd eu sillafu yn amlwg yn ddealladwy, a byddant yn dangos ymwybyddiaeth o gonfensiynau atalnodi'r iaith darged.

### Lefel 4

Bydd y disgyblion yn cynhyrchu testunau byr syml o iaith gyfarwydd. Byddant yn dechrau defnyddio eu gwybodaeth o iaith i addasu model trwy gyfnewid geiriau neu ymadroddion. Byddant yn dechrau defnyddio geiriaduron, rhestri termau, a deunyddiau eraill ochr yn ochr â'u gwybodaeth o batrymau sillafu i wirio cywirdeb eu gwaith ysgrifennu.

### Lefel 5

Bydd y disgyblion yn cynhyrchu testunau syml, creadigol a ffeithiol, mewn cyd-destunau cyfarwydd. Byddant yn amrywio eu hiaith ac yn dechrau defnyddio geiriau neu ymadroddion a ddefnyddir yn aml i'w helpu i adeiladu a chysylltu brawddegau. Er y bydd camgymeriadau, bydd sillafu ac atalnodi iaith gyfarwydd yn gywir yn gyffredinol, a bydd yr ystyr fel arfer yn eglur. Byddant yn defnyddio geiriaduron, rhestri termau a deunyddiau eraill i adolygu cywirdeb eu gwaith ysgrifennu.

### Lefel 6

Bydd y disgyblion yn cynhyrchu gwahanol fathau o destunau gan gynnwys mwy o ysgrifennu estynedig ac weithiau'n defnyddio paragraffau i strwythuro'r hyn a ysgrifennant. Byddant yn addasu iaith a ddysgwyd eisoes a defnyddio amrywiaeth o strwythurau. Er y gall fod rhai camgymeriadau, bydd yr ystyr yn eglur fel arfer. Byddant yn parhau i ddatblygu eu defnydd o ddeunyddiau cyfeirio i ychwanegu at ansawdd eu hysgrifennu. Byddant yn dechrau gwerthuso ac weithiau ail-ddrafftio eu gwaith ysgrifennu i wella'r cywirdeb.

## Lefel 7

Bydd y disgyblion yn cynhyrchu testunau ar gyfer dibenion gwahanol, weithiau yn cynnwys iaith fwy cymhleth. Byddant yn defnyddio iaith a strwythurau a ddysgwyd eisoes i amrywio eu hysgrifennu, strwythuro eu syniadau ac addasu iaith ar gyfer ei defnyddio mewn gwahanol gyd-destunau. Byddant yn golygu ac ail-ddrafftio gwaith trwy ddefnyddio ystod o ddeunyddiau cyfeirio. Bydd eu hysgrifennu yn gywir ar y cyfan, ond gall fod gwallau wrth fentro gydag iaith fwy uchelgeisiol.

## Lefel 8

Bydd y disgyblion yn cynhyrchu testunau yn ymwneud ag ystod eang o gyd-destunau ffeithiol a dychmygus. Byddant yn defnyddio ystod o eirfa a strwythurau, gan gynnwys iaith gymhleth i ysgrifennu am ffeithiau, syniadau a phrofiadau. Bydd eu sillafu a'u gramadeg fel arfer yn gywir. Byddant yn defnyddio deunyddiau cyfeirio i ymestyn eu hiaith ac i wella eu cywirdeb.

## Perfformiad Eithriadol

Bydd y disgyblion yn ysgrifennu'n rhesymegol a chywir dros ystod eang o gyd-destunau ffeithiol a dychmygus. Byddant yn dewis y dull cywir o ysgrifennu ar gyfer tasg benodol, gan wneud defnydd effeithiol o adnoddau i amrywio arddull a chwmpas eu gwaith ysgrifennu.

## Deilliannau'r cwricwlwm cenedlaethol

Mae deilliannau'r cwricwlwm cenedlaethol canlynol yn anstatudol. Cawsant eu hysgrifennu i gydnabod cyrhaeddiad disgyblion sy'n gweithio islaw Lefel 1. Mae Deilliannau'r Cwricwlwm Cenedlaethol 1, 2 a 3 yn cydreddeg â Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen 1, 2 a 3.

Cyfnod Sylfaen	Cwricwlwm Cenedlaethol
Deilliant 1 Cyfnod Sylfaen	Deilliant 1 Cwricwlwm Cenedlaethol
Deilliant 2 Cyfnod Sylfaen	Deilliant 2 Cwricwlwm Cenedlaethol
Deilliant 3 Cyfnod Sylfaen	Deilliant 3 Cwricwlwm Cenedlaethol
Deilliant 4 Cyfnod Sylfaen	Lefel 1 Cwricwlwm Cenedlaethol
Deilliant 5 Cyfnod Sylfaen	Lefel 2 Cwricwlwm Cenedlaethol
Deilliant 6 Cyfnod Sylfaen	Lefel 3 Cwricwlwm Cenedlaethol

Mae deilliannau'r cwricwlwm cenedlaethol yn disgrifio'r mathau a'r ystod o berfformiad y dylai disgyblion sy'n gweithio ar ddeilliant penodol eu dangos yn nodweddiadol. Wrth benderfynu ynghylch deilliant cyrhaeddiad disgybl ar ddiwedd cyfnod allweddol, dylai athrawon farnu pa ddisgrifiad sy'n cyd-fynd orau â pherfformiad y disgybl. Dylid ystyried pob disgrifiad ar y cyd â'r disgrifiadau ar gyfer deilliannau cyfagos.

### Deilliant 1

Bydd y disgyblion yn ymdrechu i ddynwared rhai seiniau yn yr iaith darged. Byddant efallai'n perfformio symudiadau syml mewn ymateb i ymadroddion neu eiriau. Byddant yn gwranddo ac yn ymateb efallai i rigymau a chaneuon cyfarwydd.

### Deilliant 2

Bydd y disgyblion yn ceisio un neu ddau air cyfarwydd mewn ymateb i awgrymiadau yn yr iaith darged. Byddant yn ymateb i rai cwestiynau cyfarwydd syml. Gallant ymateb drwy leisio, arwyddo neu ystumio a gallant ddibynnu ar ailadrodd a chefnogaeth. Byddant yn paru ac yn dewis symbolau ar gyfer ychydig o eiriau cyfarwydd yn yr iaith darged.



### Deilliant 3

Bydd y disgyblion yn ymateb i eraill mewn grŵp ac i storïau cyfarwydd yn yr iaith darged. Byddant yn ymateb yn fyr gan ddefnyddio geiriau, arwyddion neu symbolau unigol, a gallant ddefnyddio mynegiant yr wyneb neu oslef er mwyn cryfhau ystyr. Byddant yn darllen ac yn deall rhai geiriau cyfarwydd yn yr iaith darged gyda chliwiau gweledol neu eraill. Gallant gopïo ychydig eiriau gyda chefnogaeth.

# Addasiadau ar gyfer disgyblion sy'n astudio Tsieinëeg (Cantonëeg neu Fandarin) a Japanaeg

## Tsieinëeg (Cantonëeg neu Fandarin)

Mae'r disgrifiadau lefel ar gyfer Llafaredd yn cymryd yn ganiataol y gall Tsieinëeg gael ei siarad yn arafach ac y gall yr amrediad fod yn fwy cyfyngedig.

Mae'r disgrifiadau lefel ar gyfer Darllen ac Ysgrifennu yn cymryd yn ganiataol bod y disgyblion, yn ogystal â medru defnyddio pinyin, yn medru gweithio gyda nifer fras o symbolau, fel y dangosir isod. Yn bennaf, dylent fod yn symbolau syml, a ddefnyddir yn aml, ac sydd yn berthnasol i'r cyd-destunau ar gyfer dysgu. Disgwylir i'r disgyblion fedru deall ymadroddion cyfansawdd ac ymadroddion sydd â phedwar symbol (idiomau).

	<b>Darllen</b>	<b>Ysgrifennu</b>
Lefel 1:	20 – 30 symbol	10 – 20 symbol
Lefel 2:	30 – 60 symbol	20 – 30 symbol
Lefel 3:	60 – 100 symbol	30 – 50 symbol
Lefel 4:	100 – 150 symbol	50 – 100 symbol
Lefel 5:	150 – 250 symbol	100 – 150 symbol
Lefel 6:	250 – 350 symbol	150 – 250 symbol
Lefel 7:	350 – 450 symbol	250 – 350 symbol
Lefel 8:	450 – 600 symbol	350 – 500 symbol
Perfformiad Eithriadol:	600 symbol neu fwy	500 symbol neu fwy

Mae'r disgrifiadau lefel ar gyfer Darllen yn cymryd yn ganiataol bod modd rhoi esboniad ar gyfer symbolau sydd yn ymddangos mewn deunyddiau dilys ac sydd y tu hwnt i lefel datblygiad y disgyblion, gan ddefnyddio pinyin neu drawsgrifiad rhufeinig tebyg.

## Japanaeg

Mae'r disgrifiadau lefel ar gyfer Lefelau 1 i 4 ar gyfer Darllen ac Ysgrifennu yn cymryd yn ganiataol bod gallu'r disgyblion o ran symbolau wedi datblygu'n ddigonol iddynt fedru gweithio o fewn y canlynol:

- Lefel 1: symbolau hiragana
- Lefel 2: symbolau hiragana ac addasiadau (er enghraifft, nigori)
- Lefel 3: symbolau hiragana a katakana ac addasiadau
- Lefel 4: hiragana, katakana ac 20 – 40 kanji.

Mae'r disgrifiadau lefel ar gyfer Lefel 5 ac uwch ar gyfer Darllen ac Ysgrifennu yn cymryd yn ganiataol bod y disgyblion, yn ogystal â medru defnyddio hiragana a katakana ac unrhyw addasiadau, yn medru gweithio gyda nifer fras o kanji, fel y dangosir ar y dudalen gyferbyn. Yn bennaf, dylent fod yn kanji syml, a ddefnyddir yn aml, ac sydd yn berthnasol i'r cyd-destun ar gyfer dysgu.

	<b>Darllen</b>	<b>Ysgrifennu</b>
Lefel 5:	40 – 90 kanji	40 – 60 kanji
Lefel 6:	90 – 140 kanji	60 – 90 kanji
Lefel 7:	140 – 200 kanji	90 – 140 kanji
Lefel 8:	200 – 270 kanji	140 – 220 kanji
Perfformiad Eithriadol:	270 kanji neu fwy	220 kanji neu fwy

Mae'r disgrifiadau lefel ar gyfer Darllen yn cymryd yn ganiataol bod modd rhoi esboniad ar gyfer kanji sydd yn ymddangos mewn deunyddiau dilys ac sydd y tu hwnt i lefel datblygiad y disgyblion, gan ddefnyddio kana.

## Atodiad

### **Cyfnod Allweddol 2: fframwaith anstatudol ar gyfer ieithoedd tramor modern**

#### **Rhesymeg**

Yng Nghymru mae pob plentyn yn dysgu dwy iaith o oedran cynnar sy'n rhoi mantais iddynt o ran gallu ieithyddol. Mae dysgu iaith dramor yn ategu llythrennedd a llafaredd y disgyblion, gan adeiladu ar y sgiliau a gafwyd yn Gymraeg a Saesneg ac yn cyfrannu atynt. Mae ieithoedd tramor modern yn cyfoethogi'r cwricwlwm cynradd, gan gynnig profiad addysgol a diwylliannol gwerthfawr a dymunol i bob disgybl. Mae dysgu iaith dramor yn dod â disgyblion i gysylltiad ag agweddau ar ddiwylliant gwledydd eraill a byddant yn datblygu gwell dealltwriaeth o'u bywydau a'u cymunedau eu hunain trwy archwilio rhai pobl eraill.

Bydd y disgyblion yn ymarfer eu sgiliau iaith trwy weithgareddau dymunol mewn ystod o gyd-destunau trawsgwricwlaidd a fydd yn datblygu eu hunanhyder a'u creadigrwydd.

#### **Profiad cynnar positif**

Bydd cyflwyno ieithoedd tramor modern yng Nghyfnod Allweddol 2 yn caniatáu i ddisgyblion gael profiad cynnar positif o ddysgu iaith dramor trwy:

- roi profiad dymunol a chyffrous i bob disgybl
- cynnig cyfleoedd i ddysgu am bobloedd a chymunedau eraill a'u cymharu â'u profiad eu hunain
- rhoi'r ffocws ar sgiliau dysgu iaith
- pwysleisio siarad a gwrando, tra hefyd yn cyflwyno disgyblion i weithgareddau darllen ac ysgrifennu
- defnyddio methodolegau perthnasol i'r ystod oedran a'r lleoliad cynradd
- cyfoethogi'r cwricwlwm mewn modd gwerth chweil, gan annog cysylltiadau trawsgwricwlaidd a dimensiynau rhyngwladol
- sicrhau ei fod o fewn cyrraedd disgyblion o bob gallu
- rhoi cyfleoedd i gynorthwyo pontio a chynnal cysylltiadau a chydweithio agosach rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd
- ychwanegu at lythrennedd triphlyg
- gosod sylfaen ar gyfer dysgu iaith yn y dyfodol.

## Defnyddio'r fframwaith

Bwriad y fframwaith hwn yw cynorthwyo ysgolion sydd eisoes yn cyflwyno ieithoedd tramor modern yng Nghyfnod Allweddol 2 ac annog ysgolion eraill i gynnwys iaith dramor fodern yn y cwricwlwm. Nid yw'n manylu ar fodel cwricwlwm nag ystod amser, ond mae'n hyblyg i ysgolion ei ddefnyddio yn ôl eu hadnoddau eu hunain a'r amser sydd ar gael ar gyfer unrhyw grŵp blwyddyn.

Mae strwythur y fframwaith yn adlewyrchu'r rhaglen astudio yng Nghyfnod Allweddol 3 ac yn amlinellu'r sgiliau – llafaredd, darllen ac ysgrifennu – y gellir eu datblygu, a'r ystod o weithgareddau a lleoliadau ar gyfer datblygu'r sgiliau hynny yn y cyd-destun cynradd. Mae'n ychwanegu at ddatblygu sgiliau llythrennedd a llafaredd ar draws y cwricwlwm a dilyniant i Raglen Astudio Cyfnod Allweddol 3 ar gyfer ieithoedd tramor modern. Mae yna hefyd gyfarwyddyd ynghylch defnyddio'r disgrifiadau lefel i helpu trosglwyddo o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3.




Mae'r sgiliau hyn yn adlewyrchu'r sgiliau a ddysgir yn Gymraeg a Saesneg ac yn ychwanegu at ddilyniant i Raglen Astudio Cyfnod Allweddol 3 ar gyfer ieithoedd tramor modern.

## Sgiliau


### Llafaredd

**Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:**

1. ddefnyddio ac ymateb i iaith achlysurol mewn gweithgareddau dosbarth dyddiol
2. gwrandao'n astud ar wahanol fathau o iaith lafar ac ymateb yn briodol
3. siarad gydag ynganiad a goslef briodol
4. cyfathrebu â'i gilydd a'u hathro/athrawes
5. deall a chymryd rhan mewn sgysiau syml
6. defnyddio ac ymateb i iaith sy'n berthnasol i'w diddordebau personol a'u hamgylchedd uniongyrchol 
7. defnyddio strwythurau a phatrymau iaith a ddysgwyd eisoes i greu iaith newydd.

### Darllen

**Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:**

1. adnabod y berthynas rhwng seiniau a'r gair ysgrifenedig gan gynnwys dysgu'r wyddor
2. darllen iaith gyfarwydd yn uchel
3. darllen geiriau, ymadroddion a thestunau syml ar gyfer cyfnerthiad a diddordeb
4. defnyddio geiriaduron, rhestri termau, TGCh a deunyddiau cyfeirio eraill pan yn briodol 
5. darllen ac ymateb i amrywiaeth o iaith ysgrifenedig.

### Ysgrifennu

**Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:**

1. gopïo geiriau ac ymadroddion ar gyfer pwrpas go-iawn
2. ysgrifennu geiriau, ymadroddion a thestunau syml ar gyfer cyfnerthiad a diddordeb
3. defnyddio iaith yn greadigol, gan gynnwys TGCh pan yn briodol.








Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu sgiliau llafaredd, darllen ac ysgrifennu trwy'r ystod o weithgareddau a digwyddiadau a restrir isod.

## Ystod


### Dealltwriaeth ryngddiwylliannol


I gynyddu eu dealltwriaeth a'u gwerthfawrogiad o'u diwylliant eu hunain a diwylliannau eraill, dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:


1. ddathlu, cymharu a gwerthfawrogi gwahaniaethau a thebygrwydd rhwng eu diwylliant a'u cymuned eu hunain a rhai'r iaith darged, gan ddefnyddio a dethol gwaith o feysydd eraill y cwricwlwm cynradd 
2. datblygu sensitifrwydd tuag at wahanol bobloedd, eu traddodiadau, gwerthoedd a safbwyntiau 
3. gwerthfawrogi pwysigrwydd ieithoedd eraill a dysgu iaith mewn cymdeithas fyd-eang 
4. gweithio gyda deunyddiau dilys
5. rhyngweithio gyda siaradwyr brodorol a dysgwyr yr iaith, e.e. *ymweliadau gan siaradwyr yr iaith, ymweliadau â'r wlad, cysylltiadau gefeillio trefi a Phrosiectau Comenius, cyfnewid deunyddiau gydag ysgolion partner trwy lythyr, e-bost, defnydd rhyngweithiol o TGCh a phrosiectau dosbarth.*   


### Strategaethau dysgu iaith

I gynorthwyo dysgu iaith newydd, dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:






1. adnabod dulliau elfennol o ddysgu iaith, e.e. *dynwarded, ailadrodd ac ymarfer*
2. defnyddio a chymhwyso technegau ar gyfer dysgu iaith ar gof gan gynnwys rhigymau, rhythm, cofyddiaeth, ymateb corfforol a gweledol 

3. cymharu a gwerthfawrogi gwahaniaethau a thebygrwydd rhwng Cymraeg, Saesneg a'r iaith darged, gan ddatblygu eu sgiliau llythrennedd triphlyg a'u hyder wrth ddefnyddio iaith 

4. defnyddio hunanwerthusiad i annog cynnydd a hyder wrth ddefnyddio'r iaith. 

### Gweithgareddau a chyd-destunau

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu eu sgiliau iaith trwy:

1. gemau iaith gan gynnwys defnyddio TGCh, posau, gweithgareddau rhifedd a chwarae â geiriau   

2. ymateb i ganeuon, cerddi, drama a storïau ac ymuno ynddynt
3. gwrando ar fideo/DVD, deunydd clywedol, siaradwyr brodorol a dysgwyr iaith eraill
4. llyfrau mawr, y rhyngwrwd, a gweithgareddau CD-ROM 
5. gweithgareddau corfforol, gan gynnwys dawns
6. TGCh i ychwanegu at ddysgu annibynnol 
7. gwaith celf gan gynnwys arddangosfeydd, arwyddion a phosteri
8. gweithio mewn parau a grwpiau i gynhyrchu ac ymarfer deialogau a sgetsys
9. defnyddio iaith mewn amrediad o weithgareddau creadigol. 

## Defnyddio'r disgrifiadau lefel yng Nghyfnod Allweddol 2

Nid oes yr un gofyniad statudol i asesu ieithoedd tramor modern yng Nghyfnod Allweddol 2; serch hynny os yw'r disgyblion wedi bod yn astudio iaith dramor fodern, bydd athrawon cynradd ac uwchradd ill dau eisiau cael rhyw gofnod a/neu dystiolaeth o'r sgiliau y bydd y disgyblion wedi eu caffael, beth bynnag y bo'r iaith. Gall athrawon ddefnyddio'r disgrifiadau lefel is ar gyfer Cyfnod Allweddol 3 i ddisgrifio cyrhaeddiad eu disgyblion neu ddymuno eu haddasu ar gyfer disgyblion cynradd.

Mae'r canlynol yn enghraifft o fersiwn a symleiddiwyd o ddisgrifiadau lefel 1–3 y cwricwlwm cenedlaethol a ellid eu defnyddio ar gyfer hunanasesiad i ddisgrifio cyrhaeddiad disgyblion ar ddiwedd Blwyddyn 6. Gall rhai disgyblion wneud cynnydd pellach a gellir gwneud addasiadau tebyg ar gyfer lefelau uwch. Gall y disgyblion gwblhau'r daflen cofnod cyrhaeddiad ac atodi enghreifftiau o waith neu unrhyw gofnod arall o'u gwaith mewn ieithoedd, gan gynnwys ieithoedd eraill, gwaith trawsgwricwlaidd, cysylltiadau rhyngwladol ac ati gan felly gyflwyno cofnod o'u cynnydd a rhoi bras ddarlun o'u cyrhaeddiad ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 i'w basio ymlaen. Yn yr enghraifft gyferbyn, mae llafaredd wedi ei osod ar wahân i ddarllen ac ysgrifennu, ond gall athrawon gytuno sut y dymunent gyflwyno'r wybodaeth a'i haddasu yn ôl eu gofynion.



## **Fy nghofnod iaith – Llafaredd**

- Gallaf ddeall rhai o'r geiriau a brawddegau y mae fy athro/athrawes yn eu dweud.
- Gallaf gopïo geiriau a brawddegau y mae fy athro/athrawes yn eu dweud neu o dâp/CD.
- Gallaf ddeall gwahanol gwestiynau, brawddegau a chyfarwyddiadau.
- Gallaf gyfarch pobl, dweud beth yw rhai pethau neu bobl ac ateb rhai cwestiynau.
- Gallaf ddeall negeseuon neu sgysiau byr pan fydd fy athro/athrawes yn eu darllen neu oddi ar dâp.
- Gallaf gynnal sgwrs fer gyda fy athro/athrawes neu fy mhartner.
- Gallaf ganu rhai caneuon neu adrodd rhai rhigymau ar gof.

## **Fy nghofnod iaith – Darllen ac Ysgrifennu**

- Gallaf ddarllen rhai geiriau a'u cysylltu i'r llun cywir.
- Gallaf ddarllen yn uchel rhai o'r geiriau rwyf yn eu gwybod.
- Gallaf ddarllen rhai brawddegau byrion a deall beth maent yn ei feddwl.
- Gallaf ddarllen yn uchel rhai o'r geiriau, brawddegau a rhigymau rwyf yn eu gwybod.
- Gallaf ddarllen a deall negeseuon a sgysiau byrion.
- Gallaf ysgrifennu'r geiriau rwyf wedi eu dysgu wrth ochr lluniau ohonynt.
- Gallaf ysgrifennu dwy neu dair brawddeg rydym wedi eu hymarfer gydag ychydig o help o'm llyfr, taflen waith neu'r cyfrifiadur.

## Nodiadau